

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i  
Deuluoedd (UCCACD)  
Education and Family Support Directorate –  
Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: (01656) 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU  
Dyddiad / Date: 6 October 2020

Annwyl rieni/gofalwyr

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ysgrifennu atoch i gyd i ddiolch i chi am bopeth rydych chi wedi'i wneud i helpu'ch plentyn i ddysgu ers mis Mawrth ac, yn fwy diweddar, ers i'r ysgolion ailagor ym mis Medi.

Hoffwn hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar ysgolion, rhieni/gofalwyr a dysgwyr ar hyn o bryd. Mae'n ddrwg gen i fod hwn yn llythyr hir, ond roeddwn i'n teimlo y byddai'n ddefnyddiol i chi gael gwybodaeth gynhwysfawr.

Mae'r nodyn hwn yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

- [Gwsigo gorchudd wyneb – disgyblion sy'n defnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol](#)
- [Gwsigo gorchudd wyneb – disgyblion yn yr ysgol](#)
- [Pryd y dylai rhieni/gofalwyr gyfathrebu â'r ysgol](#)
- [Huanynysu](#)
- ['Sgwigod' yn yr ysgol](#)
- [Brecwast am ddim yn yr ysgol](#)
- [Cadw pellter cymdeithasol](#)
- [Ymddygiad disgyblion](#)
- [Presenoldeb disgyblion sy'n dangos symptomau](#)
- [Parcio ar/tu allan i safle'r ysgol](#)

## **Gwsigo gorchudd wyneb – disgyblion sy'n defnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai rhieni/gofalwyr wneud yn siŵr bod unrhyw blentyn oedran uwchradd yn gwisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn defnyddio cludiant ysgol a gaiff ei ddarparu gan yr awdurdod lleol. Nid yw hyn yn cynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu gyflyrau meddygol perthnasol sy'n eu heithrio. Nid yw'n cynnwys disgyblion ysgolion cynradd ychwaith.

Mae gan ysgolion ddigon o gyflenwadau i roi gorchudd wyneb i bob disgybl. Mae'n bosibl golchi'r rhain o leiaf 50 gwaith. Os nad yw'ch plentyn wedi cael gorchudd wyneb, byddwn yn eich annog i gysylltu â'r ysgol.

Os yw disgybl yn gwrthod gwisgo gorchudd wyneb er nad yw wedi'i eithrio rhag gwneud hynny, neu os yw disgybl yn tynnu'r gorchudd wyneb tra bydd yn defnyddio cludiant ysgol, mae'n bosibl na chaiff deithio ymhellach ac y bydd yn colli ei hawl i ddefnyddio cludiant ysgol.

Gan hynny, rwy'n gofyn i chi wneud pob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn yn cadw at y gofyniad hwn.

### **Gwisgo gorchudd wyneb – disgyblion yn yr ysgol**

Rydym yn cynghori pob disgybl ysgol uwchradd i wisgo gorchudd wyneb addas mewn manau cyhoeddus yn yr ysgol, gan gynnwys ar y coridorau, yn y neuaddau ac yn y toiledau. Nid yw hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol, cyflyrau meddygol perthnasol sy'n eu heithrio, neu ddisgyblion ag anableddau. Nid yw'n cynnwys disgyblion ysgolion cynradd ychwaith.

Yr ysgolion unigol sy'n gyfrifol am benderfynu lle y mae angen i'r disgyblion wisgo gorchudd wyneb ac rydym yn cynghori rhieni/gofalwyr, gan hynny, i wneud yn siŵr bod eu plentyn yn cadw at y gofynion sydd ar waith ym mhob ysgol.

### **Pryd y dylai rhieni/gofalwyr gyfathrebu â'r ysgol**

Os bydd eich plentyn yn cael canlyniad positif yn dilyn prawf COVID-19, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'r ysgol **ar unwaith**.

Yna, bydd angen i'r ysgol wybod am bawb sydd wedi bod mewn cysylltiad â'ch plentyn, a hynny cyn gynted â phosibl rhag i'r feirws ledaenu ymhellach. Nid yw'r gwasanaeth 'Tracio, Orlhain a Diogelu' bob amser yn rhoi'r wybodaeth hon i'r ysgol mewn da bryd felly, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn dweud wrth yr ysgol os bydd eich plentyn yn cael canlyniad positif.

Yn yr un modd, mae'n bwysig nodi bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth Cleifion) 2002 i helpu i reoli'r modd y caiff COVID-19 ei reoli, a hynny drwy brosesu a rhannu gwybodaeth â chyrrff sy'n rhan o'r gwaith o gadw llygad ar yr haint er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, darparu gwasanaethau gofal iechyd i'r cyhoedd a monitro a rheoli COVID-19.

### **Hunanynysu**

Os bydd yr ysgol yn gofyn i'ch plentyn hunanynysu, bydd hynny'n digwydd yn dilyn asesiad a gymeradwyir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n bwysig iawn cadw at y gofyniad hwn.

Os bydd angen i berson hunanynysu, ni chaiff adael y cartref ac ni chaiff neb fynd i'r cartref oni bai eu bod yn byw yno.

Cofiwch y gall asiantaethau gorfodi roi dirwy i chi os na fyddwch yn cadw at y rheolau hunanynysu.

Os bydd eich plentyn yn cael ei enwi fel un a fu mewn cysylltiad ag unigolyn (disgybl arall neu aelod o staff) a gafodd ganlyniad positif ar ôl cael prawf COVID-19, bydd yr ysgol yn cysylltu â

chi'n syth i drefnu i chi nôl eich plentyn o'r ysgol. Rydym yn eich cyngori felly i drefnu ymlaen llaw ar gyfer hyn. Hyd yn oed os oes gan eich plentyn hawl i ddefnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn dweud na ddylai wneud hynny mewn sefyllfa o'r fath. Dim o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yr awdurdod lleol yn gallu cludo disgyblion adref o'r ysgol os bydd angen iddynt hunanynysu.

### **'Swigod' yr ysgol a chyfarwydddebau hunanynysu**

Mae ysgolion yn gweithio'n galed i leihau'r posibilrwydd i COVID-19 ledaenu. Er mwyn lleihau nifer y cysylltiadau, mae'r disgyblion yn cael eu cadw gyda'u grwpiau blwyddyn a/neu ddsbarthiadau eu hunain i greu 'swigen' a fydd yn cael ei chadw ar wahân i swigod eraill.

Drwy greu grwpiau neu swigod ar wahân, bydd yn haws ac yn gynt dod o hyd i bawb sydd wedi bod mewn cysylltiad agos ag unrhyw un a fydd yn cael canlyniad positif a gofyn iddynt hunanynysu os bydd angen. Bydd y nifer a fydd yn gorfod gwneud hynny hefyd yn cael ei gadw mor isel â phosibl.

Os bydd canlyniad positif yn cael ei gadarnhau, bydd y rhai sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r unigolyn dan sylw'n gorfod hunanynysu'n unol â'r canllawiau cenedlaethol, sef 14 diwrnod ar ôl y cysylltiad diwethaf â'r unigolyn. Gallai hyn gynnwys y swigen gyfan. Mae angen gwneud hyn rhag i'r feirws ledaenu ymhellach; gan sicrhau nad yw disgyblion (neu staff) sydd wedi dal y feirws (hyd yn oed os nad oes ganddynt symptomau) yn dod i gysylltiad ag eraill a lledaenu'r feirws ymhellach.

### **Brecwast am ddim yn yr ysgol**

Diogelwch y disgyblion a'r staff yw'r ystyriaeth bwysicaf dros y cyfnod hwn ac mae pob ysgol gynradd yn adolygu ei hasesiadau risg i benderfynu pryd y bydd yn ddiogel ailddechrau'r gwasanaeth brecwast am ddim. Er bod pob ysgol wedi newid ei hamgylchedd ffisegol a'r modd y mae'n gweithredu i wneud yn siŵr ei bod mor ddiogel ag y bo modd, ni all rhai ysgolion ailagor eu gwasanaeth brecwast am ddim ar hyn o bryd.

Gan hynny, er bod yr awdurdod lleol a'r ysgolion yn cydnabod ei bod yn bwysig cynnig gwasanaeth brecwast am ddim, mae'n bwysig cadarnhau na fyddai gwneud hynny'n bygwth diogelwch ysgolion ac yn ei gwneud yn haws lledaenu COVID-19.

Rwy'n gofyn i rieni a gofalwyr felly fod yn amyneddgar tra bydd y trefniadau hyn yn cael eu haddasu i ganiatáu i'r gwasanaeth brecwast am ddim ailddechrau, a bydd pob ysgol unigol yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw gan ystyried ei sefyllfa arbennig hi.

### **Cadw pellter cymdeithasol**

Mae pob ysgol wedi cynnal asesiad risg ac yn dilyn canllawiau [Llywodraeth Cymru](#) ac lechyd Cyhoeddus Cymru ar reoli COVID-19. Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud ym mhob ysgol ac o amgylch pob ysgol, rwy'n gofyn i chi'n helpu i gadw cymunedau'r ysgolion yn ddiogel. Yn y cyswllt hwn, rwy'n gofyn i chi barhau i ddilyn yr holl ganllawiau cenedlaethol a lleol nid yn unig yn yr ysgol ond ym mhob man, gan gynnwys y cyfyngiadau symud diweddaraf.

Mae hyn yn bwysig gan ein bod yn ymwybodol bod COVID-19 yn cylchredeg yn y gymuned a rhaid i bob un ohonom gymryd cyfrifoldeb dros wneud yn siŵr bod cymuned yr ysgol yn cael ei chadw mor ddiogel â phosibl.

## Ymddygiad disgyblion

Hoffwn atgoffa rhieni/gofalwyr bod ymddygiad y disgyblion yn flaenoriaeth yn yr ysgolion.

Bydd ysgolion yn cymryd y camau priodol os bydd problemau ymddygiad yn codi a bydd yn defnyddio'r dulliau angenrheidiol i gosbi disgyblion sy'n camymddwyn, gan gynnwys eu gwahardd os bydd angen.

Yn benodol, byddwn yn ddiolchgar pe bai rhieni/gofalwyr yn atgoffa'u plant na fydd ysgolion yn goddef poeri, gan fod hyn, mae'n amlwg, yn cynyddu'r perygl i'r feirws ledaenu.

## Presenoldeb disgyblion sy'n dangos symptomau

Os yw'ch plentyn yn teimlo'n wael ac yn dangos unrhyw un o'r symptomau isod, peidiwch â'i anfon i'r ysgol. Dyma brif symptomau COVID-19:

- tymheredd uchel - y frest neu'r cefn yn teimlo'n dwym;
- peswch newydd parhaus – sef pesychu'n aml am dros awr, neu dri phwl o besychu neu ragor mewn 24 awr; a/neu
- newid yn y gallu i aroglu neu flasau – hynny yw, ni allant aroglu neu flasau dim, neu mae pethau'n aroglu neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

Os oes gan eich plentyn unrhyw un o brif symptomau'r coronafeirws:

- trefnwch i'ch plentyn gael prawf cyn gynted â phosibl i gadarnhau a yw wedi dal y coronafeirws ai peidio; ac
- arhoswch gartref a pheidiwch â gadael i neb ymweld â chi nes cewch ganlyniad y prawf.

Gofalwch eich bod yn dilyn [Hunanyysu: canllawiau aros gartref](#) Llywodraeth Cymru.

Os nad oes gan eich plentyn symptomau COVID-19 ond mae ganddo symptomau annwyd, ee os yw ei drwyn yn rhedeg, nid oes angen trefnu prawf ac nid oes angen i'ch plentyn na chi hunanyysu.

Dylai'ch plentyn ddod i'r ysgol os yw'n teimlo'n ddigon iach i wneud hynny.

## Parcio ar/tu allan i safle'r ysgol

Gall amseroedd gollwng a chodi'r plant fod yn brysur iawn o amgylch yr ysgol oherwydd bod cynifer o blant ar y safle. Gan hynny, hoffwn ofyn i rieni/gofalwyr ystyried diogelwch y plant wrth yrru a pharcio ger yr ysgol. Gall gyrru a pharcio'n anystyriol beryglu cerddwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill, a gall arwain at gwynion i'r ysgol gan drigolion lleol a rhieni eraill.

Wrth yrru ger yr ysgol, mae'n bwysig cymryd gofal a pheidio â pheryglu eraill, na chreu anhwylostod i'r rhai sy'n byw gerllaw'r ysgol. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn sicrhau'ch bod yn gyrru ac yn parcio'n ddiogel yn y lleoedd parcio priodol, hyd yn oed os yw hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gerdded ymhellach at gât yr ysgol.

Mae Heddlu De Cymru wedi dweud yn ddiweddar fod nifer fawr o ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr yn ymgynnull ar lwybrau troed cul y tu allan i'r ysgolion, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Oherwydd hynny, rhaid i gerddwyr eraill gamu i'r ffordd er mwyn cadw pellter o

ddau fetr. Yn ôl Heddlu De Cymru, mae hyn yn anniogel. Rwy'n gofyn i rieni/gofalwyr felly beidio ag ymgynnull fel hyn a threulio llai o amser yng nghyffiniau'r ysgol.

Hoffwn eich sicrhau chi bod yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gydag arweinwyr pob ysgol er mwyn caniatáu iddynt aros ar agor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae uwch arweinwyr yr ysgolion i gyd yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod holl gymuned yr ysgol yn ddiogel.

Mae'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a chânt eu newid i gyd-fynd â'r canllawiau diweddaraf er mwyn lleihau unrhyw risgiau. Rwy'n sylweddoli bod hwn yn gyfnod pryderus i deuluoedd ac rwy'n ddiolchgar iawn am eich cydweithrediad.

Diolch i chi, unwaith eto, am eich cefnogaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir/Yours sincerely



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (UCCACD)  
Education and Family Support Directorate Support Unit (EDSU)**